CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 17 MEHEFIN 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng M Powell-Jones

Cynghorwyr
H W Roberts, O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana G Parry, A Kirk, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Davies

Siaradwr Gwadd : Cynrychiolwyr o Glwb Rygbi Caernarfon (i ddathlu llwyddiant y Clwb)

Croesawyd Cadeirydd y clwb ynghyd a'r Capten i ddweud gair byr am y llwyddiant a beth oedd hyn yn olygu i'r Clwb

Mae'r llwyddiant yn dilyn 3 mlynedd o waith caled, ac ychwanegiad i'r tîm hyfforddi.

Ymfalchïo bod y clwb wedi curo, gan fod na 20 mlynedd wedi mynd heibio ers curo ddim byd arall. Wedi curo campwriaeth Goledd Cymru ac yn anffodus o dan reolau WRU nid oes unman arall i fynd rwan.

Eglurodd Trystan y Capten bod hyn yn waith ers nifer fawr o flynyddoedd, mae o yn aelod o'r clwb ers iddo fod yn 7/8 oed ac wedi symud ymlaen trwy system ieuenctid y clwb fel rhan fwyaf o'r tîm buddugol.
Mae na dros 250 o blant yn yr adran ieuenctid

Oedran eang a ffyddlon

Y Maer yn llongyfarch y tîm yn swyddogol ac yn cyflwyno Tarian swyddogol fel arwydd o'r clod.

1. Ymddiheuriadau

Cyng W R Owen, Cyng H Edwards, Cyng R Anderson, Cyng M Davies

Cyrhaeddodd Cyng W T Owen a Cyng M Thomas
Adroddodd Cyng W T Owen bod Father Mcnamara wedi marw yn 93 mlwydd oed
Safodd pawb am funud fel arwydd o barch.

2. Datgan Buddiant Personol

- W T Owen **– cynllunio**
- I C Thomas **– 4 & 7**
- A Y Williams **– 4 (6)**

3. Eitemau brys

i. Llythyr Doc Victoria
ii. Wythnos Cadw Cymru'n daclus
iii Diweddariad ar cynllun y Maes

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol (gweler amgaeedig)

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Llythyr Parch R. F. Donaldson

Parthed : Llythyr Mr Land
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

7. Cyngor Gwynedd

Cais am drwydded er mwyn darparu cyfleusterau caffi palmant ar y Briffordd – Black Boy Inn
(gadawodd Cyng. W T Owen a Cyng. I C Thomas yr ystafell)
Penderfynwyd
Cytuno

8. Cyngor Gwynedd

Llythyr yn ymateb i rybudd o gynnig Cyng. O. T. Owen
Penderfynwyd
Gofyn am gyfarfod ar y safle – y clerc i hysbysebu pa bryd fydd o, ar sawl sydd a diddordeb i fynychu

9. Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Pamffled ar y bwrdd

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10.Llythyr gan Mr. R. O. Morris

Penderfynwyd
Anfon copi o'r llythyr i Peter Simpson (adran Amgylchedd),adran Priffyrdd, ac Alun Wyn Jones gan bod cynnwys y llythyr yn berthnasol iddynt.

11.Lon Osgoi Bontnewydd

Adroddiad ARUP ar y bwrdd

Adroddiad o'r cyfarfod gan Cyng I C Thomas yn nodi mai enw swyddogol y fenter yw Ffordd Osgoi Lanwnda – Plas Menai. Bod cwmni ARUP wedi ei benodi ac yn ymchwilio i mewn i 5 wahanol optiwn. Nid oes unrhyw benderfyniad wed cael ei wneud ar ffordd/lleoliad eto . Mi fydd yna ymgynghoriad cyhoeddus , ac yna gwaith i gychwyn gwanwyn 2013.

Penderfynwyd
Derbyn a diolch i Cyng I C Thomas am yr adroddiad

12. Llythyr gan Alun Ffred Jones

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a llongyfarch y sawl sydd yn gysylltiedig a Plas Pawb

13. Llythyr Unllais Cymru

Parthed : Eisteddfod Genedlaethol

Penderfynwyd
Unrhyw un sydd a diddordeb i adael i'r clerc wybod

14. Gwynedd ar y Cyd

i. Holiadur
ii. Dyddiadau sessiynau trafod

Penderfynwyd
i – pawb sydd a diddordeb – cwblhau a dychwelyd i'r clerc
ii – pawb sydd a diddordeb adael i'r clerc wybod

15. Ombwdsman

Adroddiad Blynyddol 2007/8

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

16. Rhybudd o Gynnig Cyng. H. W. Roberts

Gogyfer Cynhadledd Unllais (Hawl i Weithredu)

Penderfynwyd

Derbyn ei gynnwys ac afon ymlaen i Unllais

17. Buddsoddi mewn treftadaeth

Cynrychiolydd o'r Cylch Trefi Caerog i ymateb

Adroddwyd bod cynnwys y ddogfen yn fwyaf perthnasol yn Lloegr, ond roedd Cadw wedi ymadrodd ar waith o fewn y gwahanol drefi

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

18. Cwestiynau

Dim un

19. Llythyr Doc Fictoria

Penderfynwyd

Ysgrifennu llythyr i'r Siambr Fasnach a gofyn am ymateb llawn

20. Wythnos Cadw Cymru'n Daclus

Cais i fod yn rhan o weithgareddau wythnos yn cychwyn 23 Mehefin

Penderfynwyd

Bod y clerc am wneud ymholiadau a trefnu dyddiad ac amser gan obeithio bod plant Ysgol Syr Hugh Owen yn medru fod yn rhan o'r fenter

21. Diweddariad ar y Maes

Clerc yn ymadrodd fod rhan helaeth o'r cyfarfod wedi bod ynghylch ar Goeden, bod pryder ynghylch ac un coeden arall- ond yn nodi mae peidio ei thorri oedd y penderfyniad

Nododd Cyng. A Y Williams fod dathliadau Gwyl Canol Haf y penwythnos yma ac yn gofyn am wirfoddolwyr.

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd..... Dyddiad.....